CYNLLUN TROSGLWYDDO CLWSTWR YSGOL DAVID HUGHES

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn rhestru'r ysgolion sydd wedi cytuno iddo ac sydd â rhan yn ei weithredu. Mae'n rhoi crynodeb o'r nodau a'r amcanion y mae ysgolion y clwstwr wedi cytuno arnynt ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2022 i fis Gorffennaf 2025 ac mae'n rhoi manylion y gwaith sydd i'w wneud yn 2024 -25. Bydd ysgolion y clwstwr yn adolygu ac yn cytuno ar y cynnydd a wnaed a'r camau nesaf sydd i'w cymryd bob blwyddyn gan gwblhau'r adolygiad nesaf erbyn mis Gorffennaf 2025.

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gytundeb ar y cyd rhwng yr ysgolion canlynol –

Ysgol Uwchradd David Hughes
Ysgol Gynradd Llanfairpwll
Ysgol Gynradd y Borth
Ysgol Gynradd Llangoed
Ysgol Gynradd Biwmares
Ysgol Gynradd Parc y Bont
Ysgol Gynradd Llandegfan
Ysgol Gynradd Brynsiencyn
Ysgol Gynradd Pentraeth

PWRPAS

Mae'r ddogfen hon yn diwallu gofynion Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022 ('Rheoliadau 2022'). Mae wedi ei lunio ar y cyd gyda'r ysgolion cynradd gan roi ystyriaeth manwl i'r uchod, yn ogystal ag egwyddorion Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Bwriad y ddogfen hon yw i fanylu ar ein cynlluniau ar gyfer rheoli a chydlynu'r broses bontio a throsglwyddo. Mae'r cynllun yn amlinellu sut mae ysgolion y clwstwr yn bwriadu sicrhau bod parhad mewn dysgu rhwng y cynradd a'r uwchradd drwy gydweithio agos, a chyswllt cyson. Trwy hyn, ein nod yw bod cynnydd dysgwyr yn parhau yn ddi-dor ar hyd y continwwm dysgu.

Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau trefniadau ynglŷn â rhai camau mewn perthynas â throsglwyddiad dysgwyr o'r sector Cynradd i'r sector Uwchradd a'r cyswllt rhwng ysgolion. Adolygir cynnwys y ddogfen yng ngoleuni profiad a chan ystyried unrhyw faterion pellach y byddai'n fuddiol cyfeirio atynt yn ei chynnwys.

Ein nodau cytûn yw:

- Hyrwyddo dilyniant addysg ar hyd y continwwm addysg o 3 oed i 16 oed a thuag at y Pedwar Diben.
- Hyrwyddo a hybu gwaith ar draws y camau cynnydd ymhob Maes Dysgu a Phrofiad, ar sail yr Egwyddorion Cynnydd ac ar hyd y continwwm dysgu.
- Meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymysg staff o'r fethodoleg/addysgeg a geir â'r profiadau a gaiff y dysgwyr, a darparu continwwm o addysgeg priodol ar sail y 12 Egwyddor Addysgegol.
- Datblygu a hwyluso cyfnewid athrawon rhwng sectorau ar gyfer cyd-weithio, cyd-gynllunio a chyd-asesu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd a manteisio ar arbenigeddau staff.
- Paratoi dysgwyr ar gyfer y profiad o drosglwyddo.
- Pennu cymorth penodol a thargedu y dysgwyr hynny a ystyrir yn rhai sy'n agored i niwed neu'n fregus neu sydd âg ADYaCh.
- Sicrhau bod data/gwybodaeth ar gyfer trosglwyddo dysgwyr wedi'i ddarparu a'i ddefnyddio'n briodol.
- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr/teuluoedd yn cael eu hysbysu'n llawn am y broses drosglwyddo.
- Creu modd i ddysgwyr drosglwyddo'n effeithiol.
- Hybu trafodaeth ac felly hyrwyddo'r broses penderfynu a datblygu polisi.
- Rhannu arbenigedd ac adnoddau.
- Sicrhau holl fanteision HMS ar y cyd.
- Datblygu strategaeth ar y cyd i gyfleu pwysigrwydd addysg yn ein cymuned.

ER BUDD DISGYBLION

- Rheoli a chyd-gysylltu'r broses drosglwyddo.
- Cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd.
- Sicrhau parhad a chontinwwm mewn dulliau addysgu a dysgu effeithiol.
- Sicrhau cysondeb wrth asesu/monitro a dilyn cynnydd dysgwyr.
- Gwerthuso effaith y polisi a'r cynlluniau gwella ar safonau.
- Cynlluniau bugeiliol i fodloni anghenion personol a chymdeithasol y dysgwyr.
- Rhannu gwybodaeth am gynnydd, cyflawniadau a chyrhaeddiad y dysgwyr. ●Rhoi gwybod am anghenion dysgwyr unigol.

Gweledigaeth ein clwstwr

Mae ysgolion ein clwstwr yn ymrwymo i gydweithio er mwy darparu'r addysg orau i'n dysgwyr a'u cefnogi i ddatblygu'n unigolion cyflawn yn unol â 4 Diben Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn magu unigolion parchus ac iach a dysgwyr annibynnol fydd yn barod i chwarae'u rôl mewn cymdeithas. Byddwn yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith.

Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i gyflawni'r nodau uchod a'r Cynllun Gweithredu a fabwysiedir yn flynyddol yn manylu ar y camau datblygu ar gyfer y flwyddyn honno. Yn yr un modd ag a wnaed wrth lunio'r cynllun hwn, byddwn yn ceisio barn llywodraethwyr, rhieni, gofalwyr a disgyblion am y dull gweithredu. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion yr awdurdod addysg lleol.

CYNNWYS

Mae'r cynllun yn nodi'r agweddau hanfodol ar gyfer sicrhau trosglwyddo effeithiol yn unol â'r gofynion statudol sydd wedi'u nodi mewn canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru:

- Agweddau Gweinyddol - ffeiliau trosglwyddo cyffredin, cynlluniau trosglwyddo ac ati
- Materion Cymdeithasol a Phersonol - meithrin perthynas gadarnhaol
- Dilyniant Cwricwlaidd - dyluniad cwricwlwm a rennir a chyd-ddealltwriaeth o gynnydd
- Parhad Addysgegol - dilyniant o ran y dysgu a'r addysgu
- Ymreolaeth a Rheoli Dysgu - prosesau ar gyfer dysgu gweithredol a dysgwyr yn arwain y dysgu

Mae'r Cynllun yma yn nodi sut y byddwn fel clwstwr o ysgolion yn rheoli a chydlynu cydweithio cyffredinol er mwyn:

- sicrhau parhad dysgu ar gyfer dysgwyr wrth drosglwyddo i Flwyddyn 7 a datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd.
- cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol wrth iddo drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- cefnogi anghenion dysgu a lles pob dysgwr unigol
- cynllunio i adolygu a monitro'r cynllun, a chefnogi parhad mewn dysgu.

Ym mhob achos, mae'r cynllun yn nodi gwaith cyfredol a pharhaus. Os nodir meysydd i'w gwella, byddwn yn cytuno ar flaenoriaethau ac yn gweithio arnynt gyda'n gilydd yn ystod cyfnod y cynllun.

Rheoli a chydlynu cyffredinol

Mae pob ysgol yn y bartneriaeth wedi enwebu aelod o'i thîm rheoli i arwain ar ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r camau a gytunwyd yn y cynllun hwn.

Bydd y rhai y mae ysgolion y clwstwr wedi'u henwebu'n cwrdd unwaith pob hanner tymor i adolygu cynnydd, nodi unrhyw faterion ychwanegol y mae angen rhoi sylw iddynt ac, os oes angen, cytuno ar y camau gweithredu priodol.

Mae Meinir Davies wedi'i henwebu'n Gyd-gysylltydd Trosglwyddo'r Clwstwr. Bydd y cyd-gysylltydd yn hyrwyddo gwaith y grŵp llywio ac, yn benodol, yn cynghori ar:

- fonitro'r cynnydd ar y prif feysydd sydd wedi'u nodi yn y cynllun blwyddyn.
- y dull gorau o sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i gynnwys rhieni/ gofalwyr a dysgwyr wrth gael adborth a chynllunio.
- sut i sicrhau bod cysylltiadau effeithiol yn digwydd dan arweiniad yr awdurdod lleol.
- unrhyw gamau i fodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag adolygu'r Cynllun Trosglwyddo.

Sicrhau parhad dysgu ar gyfer dysgwyr wrth drosglwyddo i Flwyddyn 7
Manteisir ar gyfleoedd hyfforddiant mewn swydd trosglwyddo i gyflwyno gweithgareddau datblygiad proffesiynol i'r staff perthnasol. Bydd y clwstwr yn darparu arweiniad ar arfer da mewn meysydd perthnasol i gynllunio'r cwricwlwm, dilyniant mewn addysgu a dysgu, asesu a monitro cynnydd.

Rhoddir pwyslais ar ddilyniant ieithyddol yn y Gymraeg fel bod pob plentyn yn ymgyrraedd tuag at lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd ei gyfnod yn y sector uwchradd. Os yw cyrhaeddiad dysgwr yn y Gymraeg yn isel, fe fydd yr ysgol uwchradd yn gwneud pob ymdrech i wella a chryfhau gafael y plentyn yn ei ail iaith.

Cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol wrth iddo drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Rydym o'r farn ei bod yn arfer dda i gynrychiolwyr yr Ysgol Uwchradd ymweld ag Ysgolion Cynradd y clwstwr o leiaf dair gwaith i hyrwyddo'r broses drosglwyddo:

- gwahoddiad i Noson Agored a chyflwyno eu hunain i'r disgyblion.
- i sgwrsio ac ateb cwestiynau'r dysgwyr (Pennaeth YDH a Phennaeth Blwyddyn 7 YDH ynghyd a cyn-ddisgyblion yr ysgol gynradd)
- i siarad â'r Pennaeth/Athro(awes) Bl.6 a chasglu gwybodaeth bellach (Cyswllt Lles Cynradd/Uwchradd a Phennaeth Blwyddyn 7)

Gwneir trefniadau i ddysgwyr ymweld â'r Ysgol Uwchradd am o leiaf tridiau cyn trosglwyddo. Yr Ysgol Uwchradd fydd yn gyfrifol am weithrediad y trefniadau hyn. Lle gwneir defnydd o gludiant sirol, gwneir hynny dan yr amodau sirol arferol.

- Yn ystod tymor yr Hydref cynhelir Noson Agored yn yr Ysgol Uwchradd i rieni a dysgwyr blynyddoedd 6 i ymgyfarwyddo â'r ysgol a'i staff.
- Ym mis Mehefin/Gorffennaf cynhelir Sesiynau Anwytho i holl ddisgyblion Bl6 – 3 diwrnod
- Cynhelir noson rieni bl.6 er mwyn rhannu gwybodaeth a chynnal sesiwn holi ar brynhawn olaf y tridiau anwytho

Mae'r ysgolion yn y clwstwr yn ymrwymo i rannu gwybodaeth am ddysgwyr ar ben y gofynion statudol os yw hyn o fudd i les y dysgwyr.

Bydd yr wybodaeth ffurfiol sydd i'w throsglwyddo ar gyfer pob plentyn yn cynnwys o leiaf:

- Gwybodaeth SIMS berthnasol o'r Swyddfa Addysg yn ganolog
- Sampl o waith y disgyblion yn ystod tymor yr haf cyn trosglwyddo
- Gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn unol â Chod Cynnydd CiG a'r Egwyddorion Cynnydd statudol
- Data dysgwr unigol perthnasol e.e. Canyliadau asesiadau personol/profion darllen/rhifedd, targedau Proffil Boxall, Canlyniadau PASS.

- Gwybodaeth ychwanegol mewn rhai achosion e.e. materion ADYaCh/Meddygol (copi o'r Datganiad ADY/CDU Awdurdod neu Ysgol/Cynllun Meddygol Unigol drwy CDUarlein a chopi papur)

Mae'r ysgolion cynradd yn ymrwymo i drosglwyddo'r wybodaeth i'r Uwchradd cyn ddiwedd mis Mai.

Cefnogi anghenion dysgu a lles pob dysgwr unigol

Gwahoddir cynrychiolydd o'r Ysgol Uwchradd (Cyd-lynydd ADY YDH) i adolygiad blynyddol unrhyw blentyn sydd yn destun Datganiad/CDU Awdurdod ADYaCh yn ystod tymor cyntaf Blwyddyn 6.

Adolygu a monitro'r cynllun

Bydd y rhai y mae ysgolion y bartneriaeth wedi'u henwebu hefyd yn gwneud adolygiad blynyddol o'r cynllun hwn tua diwedd y flwyddyn ysgol ac yn ystyried y cynnydd a wnaed ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ddilynol gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau. Bydd cyrff llywodraethu ysgolion y bartneriaeth yn ystyried ac yn cytuno ar argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad.

Trefniadau trosglwyddo 2024-2025

	Gweithgaredd	**Dyddiad**	**Yn Arwain**
Medi	• Cyfarfod Fforwm Penaethiaid – Cytuno'r Cynllun Gwella a Cynllun Trosglwyddo'r clwstwr	11.9.24	MLD
Hydref	• Ymweliad Pennaeth/Pennaeth Bl.7 YDH efo pob ysgol gynradd	i'w pennu gyda pob ysgol yn unigol	MDC/MAR
	• Cyfarfod Cyd-ddealltwriaeth o gynnydd/Deialog broffesiynol MDaPh (Ieithoedd)	14/10/24	MLD/NH
Tachwedd	• Cyfarfod Fforwm Penaethiaid – adolygu cynnydd Bl.7	13/11/24	MLD
	• Ymweliad Pennaeth/Pennaeth Bl.7 YDH efo pob ysgol gynradd	I'w pennu gyda pob ysgol yn unigol	MDC/MAR
	• Noson Agored YDH i Fl.6	26/11/24	MLD/MAR
	• HMS Dalgylch	4.11.24	MLD/MAR

Rhagfyr			
Ionawr	• Cyfarfod Cyd-ddealltwriaeth o gynnydd/Deialog broffesiynol MDaPh (Ieithoedd)	I'w bennu	MLD/NH

	• Gweithdai Mathemateg yn yr ysgolion cynradd	Wythnos yn dechrau 15.1.24	MLD MLD/MGD/ORD
Chwefror	• Cyfarfod Fforwm Penaethiaid – trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol •	19 Chwefror	MLD
Mawrth			
Ebrill	• Cyfarfod Cyd-ddealltwriaeth o gynnydd/Deialog broffesiynol MDaPh (Ieithoedd) • Cyfarfod Fforwm Penaethiaid • Dechrau paratoi ein cylchgrawn/fideos pontio	I'w bennu 9/4/25 I'w bennu	MLD/NH MLD NH/MDC ac Adran Gymraeg YDH
Mai	• Ymweliadau casglu gwybodaeth lles – Pennaeth Bl.7 • Cyfarfod Fforwm Penaethiaid • Cyfarfod Cyd-ddealltwriaeth o gynnydd/deialog broffesiynol MDaPh (Ieithoedd)	I'w pennu gyda phob ysgol yn unigol 14/5/25 I'w bennu	MLD MDC/MLD MLD MLD/NH

Mehefin	• Cyfarfod Fforwm Penaethiaid – gwerthuso a gwella • 3 Diwrnod Anwytho Bl6 • Noson rieni Bl.6	11/6/25 17-19 Mehefin, 2025 19.6.25	MLD MLD/MDC MAR/MLD/MDC/TDW
Gorffennaf			

Mae'r rhai isod yn cytuno â'r cynllun hwn ar ran Cyrff Llywodraethu ysgolion y bartneriaeth:

Enw Cadeirydd: Dr. Hywel Jones

Llofnod:
Dyddiad: 4/10/24
Ysgol David Hughes

Enw Cadeirydd_____
Llofnod _____
Dyddiad _____
Ysgol _____

Enw Cadeirydd_____
Llofnod _____
Dyddiad _____
Ysgol _____

Enw Cadeirydd_____
Llofnod _____
Dyddiad _____
Ysgol _____